PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD LLUN, 11 GORFFENNAF 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Wong(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Brown-Reckless, Jenkins, Lloyd Jones a/ac Robinson |

11 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Cunnah a Henshaw

12 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Lloyd Jones fuddiant personol fel Cadeirydd Prosiect Pererindod Penrhys.

13 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2022 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

14 : CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN (CFFG): CRAFFU CYN PENDERFYNU - I DDILYN

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn rhoi cyfle iddynt graffu cyn penderfynu ar yr adroddiad i'r Cabinet, sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1 y papurau.

Mae'r craffu hwn yn adeiladu ar y craffu wedi'i wneud gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad i'r Cabinet yn nodi'r ceisiadau arfaethedig i'r CFfG ar gyfer Caerdydd ac yn rhanbarthol, a'i fod yn ailddatgan y ceisiadau arfaethedig am arian Codi'r Gwastad, ar bwyntiau 42-45 ac y gall y Pwyllgor hefyd ystyried rôl y Cyngor a'r awdurdod arweiniol, y gwaith rheoli rhaglenni a llywodraethu, ac a oes unrhyw risgiau neu oblygiadau eraill i'r Cyngor.

I fynd â'r Pwyllgor drwy'r dull arfaethedig, croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Thomas - Arweinydd
- Paul Orders - Prif Weithredwr
- Jon Day – Rheolwr Gweithredol - Buddsoddi a Thwristiaeth

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr i wneud datganiadau ac ar ôl hynny gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Nododd yr Aelodau mai fframwaith oedd yn hytrach na chynnig manwl ac roeddent yn falch y byddai hyn yn dod ymlaen yn yr hydref. Cytunodd yr Arweinydd mai fframwaith oedd a'u bod yn ceisio cadw cymaint o hyblygrwydd â phosib.

Gofynnodd yr Aelodau a feddyliwyd am gynigion cynnil; a faint o arian a fyddai'n cael ei ddyrannu i bob pennawd unigol. Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai mwy o amser ar gyfer cynllunio wedi bod o fudd. Esboniodd yr Arweinydd fod rhywfaint o waith cychwynnol wedi bod ar ddyrannu i linellau penodol, ond mae angen profi hyn dros fisoedd yr haf. Ychwanegodd y swyddogion fod ystyriaethau ymarferol hefyd wrth gyflwyno'r fframwaith yn yr amserlen. Roedd disgwyl am fanylion dyrannu gan Lywodraeth y DU ond bydd angen rhoi trefniadau cadarn mewn lle. Ychwanegodd y Prif Weithredwr mai'r prif fater yw'r proffil gwariant, mae'n rhagweld mwy o wariant allweddol ar draws y rhaglen fel y gwasanaethau i mewn i waith. Yna byddai angen deall yr ystod o brosiectau wrth symud ymlaen a'u halinio â'r rhaglen wariant.

Gofynnodd yr Aelodau am y trefniadau Llywodraethu i sicrhau bod y gyfran sy'n cael ei chlustnodi ar gyfer Caerdydd yn cyrraedd Caerdydd. Roedd disgwyl o hyd am fanylion trefniadau monitro a chydymffurfio ond nododd yr Aelodau mai'r bwriad yw defnyddio Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac olynydd Cyd-bwyllgor Corfforaethol fel y strwythur llywodraethu ar gyfer rhaglenni a phrosiectau rhanbarthol. Nododd yr Aelodau y bydd Cyngor Caerdydd yn sefydlu systemau lleol ar gyfer monitro, gwerthuso a chydymffurfio, ar gyfer rhaglenni a phrosiectau lleol. Nododd yr Aelodau hefyd fod y Fargen Ddinesig yn arwain trafodaethau ar wneud y mwyaf o fuddion yn rhanbarthol, er enghraifft ar sgiliau, hyfforddiant a chymorth busnes fel y gall y rhanbarth osgoi dyblygu a manteisio ar arferion da a synergeddau.

Roedd yr Aelodau'n falch o weld cyfeiriad at drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer cymunedau anodd eu cyrraedd.

Cyfeiriodd yr Aelodau at lwybr arfordir Cymru. Roedd yr Aelodau am dynnu sylw at y ffaith bod llawer o ardaloedd Caerdydd, yn ogystal â Llwybr Arfordir Cymru a grybwyllir yn y rhaglenni arfaethedig, â llwybrau cerdded y gellid eu defnyddio i hyrwyddo'r ardaloedd hyn i ymwelwyr, fel llwybr Pererindod Penrhys, sy'n dechrau/gorffen yn Llandaf, teithiau cerdded ym Mhen-y-lan, Creigiau, Sain Ffagan a Phentyrch.

Gofynnodd yr Aelodau sut y bydd y CFfG yn cael ei defnyddio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, sy'n gwaethygu oherwydd effaith yr argyfwng costau byw ac effaith pandemig covid. Cyfeiriodd yr Aelodau'n benodol at anghydraddoldebau o ran pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac anghydraddoldebau rhywedd ac at bryderon bod y rhain wedi caledu'n fwy yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Tynnodd yr Arweinydd sylw at yr angen i fod yn ofalus i beidio â gorchwarae'r hyn y gallai CFfG ei gyflawni ac at y ffaith bod ei weinyddiaeth yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, er enghraifft drwy'r Cyflog Byw, gwaith y Fargen Ddinesig ar gynyddu gwerth ychwanegol crynswth ac ati. Ychwanegodd y bydd rhai ffrydiau o'r CFfG yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, er enghraifft mae'r ffrwd i Mewn i Waith wedi'i thargedu'n fawr ac yn canolbwyntio ar anghenion uchel. Daeth i'r casgliad y bydd y CFfG yn helpu ond na fydd yn weddnewidiwr ar ei phen ei hun.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd lle i brosiectau ymgorffori targedau ar gyfer cyflogaeth ac i fonitro cydymffurfiaeth ar y rhain. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod lle i wneud hyn ac i greu cymhellion fel y caiff ei wneud yn iawn. Dywedon nhw wrth yr Aelodau eu bod yn gweithio gyda'r Inclusive Growth Network i ddysgu o'r arfer gorau ac i ymgysylltu â grwpiau allweddol yn lleol.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 15 : DIWEDDARIAD AR ADFYWIO GLANFA'R IWERYDD: CRAFFU CYN PENDERFYNU - I DDILYN

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn rhoi cyfle iddynt graffu cyn penderfynu ar yr adroddiad i'r Cabinet, sydd wedi’i atodi yn Atodiad A y papurau.

Cwmpas y craffu yw ystyried y newidiadau arfaethedig i'r Maes Parcio Aml-Lawr, y strategaeth tir, ac uwchgynllun Glanfa'r Iwerydd, y diweddariad ar yr Arena Dan Do, y cytundeb arfaethedig mewn egwyddor i ddefnyddio gorchmynion Prynu Gorfodol, rôl y Cyngor ac a oes unrhyw risgiau neu oblygiadau eraill i'r Cyngor. Gofynnwyd i'r Aelodau beidio â chyfeirio at wybodaeth gyfrinachol mewn sesiwn agored.

I fynd â’r Pwyllgor drwy'r dull arfaethedig, croesawodd y Cadeirydd:

- Neil Hanratty – Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Chris Barnett - Rheolwr Gweithredol - Prosiectau Mawr

Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor ac ar ôl hynny gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau/arsylwadau.

Cafodd yr Aelodau drafodaeth ynglŷn â pha rannau o'r adroddiad oedd yn gyfrinachol ac yn y parth cyhoeddus. Roedd yr Aelodau'n pryderu bod gwybodaeth gyhoeddus/agored mewn atodiad wedi'i eithrio a gofynnon nhw pam na chafodd hon ei gwahanu i fod yn agored ac yn dryloyw. Gofynnodd yr Aelodau i'r holl wybodaeth nad yw'n gyfrinachol fod ar gael i'r cyhoedd a rhanddeiliaid sydd â diddordeb i'w darllen drwy sicrhau ei fod wedi'i chynnwys mewn adroddiadau neu atodiadau nad ydynt yn gyfrinachol. Dylai atodiadau cyfrinachol gynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn unig. Os nad yw hyn yn ymarferol, dylid dyblygu gwybodaeth mewn atodiad nad yw'n gyfrinachol ac atodiad cyfrinachol, gyda'r atodiad nad yw'n gyfrinachol yn cuddio gwybodaeth gyfrinachol.

Nododd yr Aelodau fod y cynnig yn cynnwys adeiladu maes parcio ar gyfer 1800 o geir a gofynnon nhw a oedd hynny'n cyd-fynd â chynlluniau Teithio Llesol ac Argyfwng Hinsawdd. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r prosiect wedi gallu cael ei gyflawni heb hyn ac a ystyriwyd hyn o ran prosiectau yn y dyfodol. Nododd y swyddogion y cwestiynau dilys a gwnaethon nhw egluro fod y maes parcio â 1300 o fannau parcio yn ofyniad gan ddatblygwr yr Arena, mae'n amod cynsail sy'n ymrwymiad cytundebol cyfreithiol ar y Cyngor. Yr egwyddor y tu ôl iddo yw bod 1800 o fannau parcio ar yr wyneb. Roedd cytundeb i greu Maes Parcio Aml-Lawr a pheidio â darparu unrhyw fannau ychwanegol i'r hyn sydd ar y safle ar hyn o bryd. Bydd llawer mwy o alw am yr arena a fydd yn cael ei wasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw fesurau gwrthbwyso carbon yn rhan o'r cynllun. Esboniodd y swyddogion eu bod wedi ymrwymo i gyflawni holl gynllun Glanfa'r Iwerydd yn garbon niwtral. Byddai 400 o fannau ar gyfer gwefru cerbydau trydan drwy ynni gwyrdd, paneli solar a mannau to hydroponig gyda batris storio.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd 50% o’r hydroponeg to’n cynhyrchu bwyd, gyda'r nod o ddanfon 500 o fasgedi bwyd y mis i'r gymuned a rhandiroedd. Byddai waliau gwyrdd hefyd yn cael eu defnyddio ond yn bennaf ar gyfer estheteg ac nid cnydau.

Nododd yr Aelodau, pan gyflwynwyd yr uwchgynllun i'r Pwyllgor Cynllunio, y cafwyd beirniadaeth o ran y cyfleusterau beicio amlinellol. Gofynnodd yr Aelodau a fydd lefel gyfatebol o feicio diogel i gefnogi'r agenda teithio cynaliadwy. Esboniodd y swyddogion na fyddant yn cyflwyno’r achos busnes llawn ar gyfer y maes parcio tan yr hydref. Bydd gan y maes parcio elfen teithio llesol a gorsaf drafnidiaeth gyhoeddus.

Gofynnodd yr Aelodau am y tir a gaffaelwyd gan Future Inns, gan ofyn a yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ac a yw hyn yn achosi unrhyw broblemau. Esboniodd y swyddogion mai'r maes parcio ac adeilad Pizza Hut sydd wedi bod ar gau ers blynyddoedd, bydd 4 man parcio o amgylch Miller a Carter yn cael eu colli.

Gofynnodd yr Aelodau faint mae'r Arena yn ei gostio a faint sy'n cael ei fenthyg. Dywedodd y swyddogion fod yr adroddiad i'r Cabinet yn ymwneud â chaffael darn o dir/maes parcio. Yn yr hydref bydd cynllun busnes yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w graffu'n llawn. Ym mis Hydref, bydd y swyddogion yn cyflwyno'r costau, ac esboniwyd bod y rhain yn newid ac yn codi'n eithaf cyflym, fodd bynnag dywedwyd wrth yr Aelodau fod amlygiad y Cyngor i hyn yn gyfyngedig a bod pwysau chwyddiant yn gorfod cael eu hysgwyddo gan y datblygwr.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

16 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

17 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - I'W GADARNHAU

Daeth y cyfarfod i ben am 6.10 pm